Cofnodion cyfarfod hybrid y **PWYLLGOR CYLLID A MATERION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd nos Fercher, 3 Gorffennaf 2024, am 6.00pm.

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd A. J. Rutherford (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs M. A. Blakeley-Walker, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, S. Feeney, A. R. James, K. R. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. L. McAlpine, B. Mellor, Ms V. Roberts, Miss C. L. Williams ac A. Walker.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

## 16. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Miss S. Fleming a D. Simmons.

## 17. CYFLWYNIAD: BWRDD TREF Y RHYL

Ymhellach i gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2024, cynghorodd Clerc y Dref nad oedd y cynrychiolydd a wahoddwyd, Mr Adam Roche, yn medru dod i'r cyfarfod yn anffodus.

Ychwanegodd y Clerc fod Ms Liz Grieve, Pennaeth Tai a Chymuned Cyngor Sir Ddinbych, a Chadeirydd y Bwrdd, yn gobeithio dod i gyfarfod nesaf y Cyngor.

Cynghorodd y Cadeirydd fod y Bwrdd wedi cymeradwyo ei benodiad i Fwrdd Tref y Rhyl fel cynrychiolydd y Cyngor Tref.

## 18. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A)

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn nodi manylion y taliadau a wnaed a'r incwm a dderbyniwyd.

| Taleb Rhif: | Enw'r cyflenwr | Swm | Disgrifiad y nwyddau/gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| Amherthnasol | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol |
| 1843 | BT | 309.23 | Llinellau ffôn a band eang |
| 1844 | HSBC | 8.00 | Ffi bancio |
| Amherthnasol | Tesco | 12.99 | Ffioedd ffôn symudol |
| 1847 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 8,425.92 | Cyflogau net – mis Mehefin 2024 |
| 1845 | Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi | 2,960.12 | Didyniadau Talu wrth Ennill – mis Mai 2024 |
| 1846 | Cyngor Sir y Fflint – Cronfa Bensiwn Clwyd | 3,173.10 | Didyniadau pensiwn – mis Mai 2024 |
| 1848 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 3,640.03 | Swyddog Apeliadau – taliadau 1, 2 a 3 o 12 |
| 1808 | Cyngor Sir Ddinbych | 811.00 | Ardrethi Annomestig y Swyddfeydd Dinesig, Ffordd Wellington, Y Rhyl – taliad 3 o 10 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1849 | Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych | 2,000.00 | Swyddog Effeithlonrwydd Ynni – taliad 1 o 4 |
| Amherthnasol | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol |
| Amherthnasol | Tesco | 12.99 | Ffioedd ffôn symudol |
| | **Cyfanswm y taliadau** | **£21,359.38** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| Santander | Llog ar y Cyfrif Hysbysiad 31 diwrnod | 295.99 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif Adneuo 7 diwrnod | 30.69 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif Adneuo 7 diwrnod | 353.50 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif Adneuo 7 diwrnod | 30.70 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif Adneuo 7 diwrnod | 30.70 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif Adneuo 7 diwrnod | 30.70 |
| | **Cyfanswm yr incwm** | **£772.28** |

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chymeradwyo'r adroddiad.*

## 19. AWDURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERAWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y Cyngor, cyfeiriodd y Cadeirydd at Atodlen B a gyflwynwyd gan Glerc y Dref (rhestr o daliadau nad ydynt yn daliadau rheolaidd i'w rhyddhau yn ystod y mis) (dosbarthwyd gyda'r agenda).

| Taleb Rhif: | Cyflenwr | Manylion y cyflenwad | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 1855 | Y Cynghorydd C. L. Williams | Lwfans y Maer 24/25 – taliad 1 o 3 | 433.34 |
| 1856 | Y Cynghorydd A. Walker | Lwfans y Dirprwy Faer 24/25 – taliad 1 o 3 | 133.34 |
| 1857 | Y Cynghorydd C. L. Williams | Lwfans Uwch Swydd 24/25 – taliad 1 o 3 | 166.67 |
| 1858 | Y Cynghorydd A. Walker | Lwfans Uwch Swydd 24/25 – taliad 1 o 3 | 166.67 |
| 1859 | Pottles Premier Plants Ltd | Planhigion haf 2024 | 11,938.69 |
| 1860 | Y Cynghorydd C. L. Williams | Lwfans costau a threuliau 24/25 (£52 a £156) | 208.00 |
| 1861 | Y Cynghorydd A. Walker | Lwfans costau a threuliau 24/25 (£52 a £156 | 208.00 |
| 1862 | Y Cynghorydd S. Feeney | Lwfans costau a threuliau 24/25 (£52 a £156 | 208.00 |
| 1863 | Lawnscience | Triniaeth i lawnt y Gerddi Coffa | 42.00 |
| 1864 | Sandra Williams | Gwasanaeth cyfieithu | 620.66 |
| | **Cyfanswm Atodlen B** | | **£14,125.37** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen i'w thalu a llofnodi'r taliadau gan ddau gynghorydd.*

## 20. <u>YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – CYFARFOD YMGYNGHORI YNGHYLCH Y GYLLIDEB</u>

Cyfeiriodd Clerc y Dref at y gwahoddiad (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) gan Gyngor Sir Ddinbych i'r Cyngor Tref benodi cynrychiolydd i fynd i'r cyfarfod uchod i dderbyn cyflwyniad ar sefyllfa ariannol y Cyngor Sir a rhagolygon ariannol y dyfodol, gyda'r nod o ystyried cyfleoedd potensial i weithio ar y cyd yn y dyfodol.

Awgrymodd Clerc y Dref y dylai'r aelodau ystyried y Cynghorydd A. J. Rutherford, gan ei fod yn Gadeirydd yr Is-bwyllgor Pwysau ar Gyllideb Cyngor Sir Ddinbych a sefydlwyd gan y Cyngor Tref yn ddiweddar.

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *penodi'r Cynghorydd A. J. Rutherford i fynd i'r cyfarfod.*

## 21. <u>YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – CYNLLUN PARC POCED PORTH CANOL TREF Y RHYL</u>

Adroddodd Clerc y Dref ei fod wedi derbyn yr uchod (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn gofyn am ganiatâd i roi cyflwyniad i'r Cyngor Tref ar y cynlluniau yn yr arfaeth ar gyfer y parc poced ar waelod y Stryd Fawr.

Ymddiheurodd Clerc y Dref fod manylion yr ymgynghoriad yn hwyr yn cael eu cyflwyno.

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *cymeradwyo'r cais.*

## 22. <u>EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD</u>

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *eithrio'r Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitemau busnes a ganlyn yn unol ag Adran 1(2) y Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i gyfarfodydd) 1960, ar sail cyfrinachedd.*

## 23. <u>CYNGOR SIR DDINBYCH – YMGYNGHORI YNGHYLCH TOILEDAU CYHOEDDUS</u>

Ymhellach i gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2024, cyfeiriodd y Cadeirydd at argymhellion cyfrinachol yr Is-bwyllgor Pwysau ar Gyllideb Cyngor Sir Ddinbych (a ddosbarthwyd drwy neges ebost heddiw) yng nghyswllt yr ymgynghoriad uchod, i'r aelodau ei ystyried.

Yn dilyn peth trafodaeth, ***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *cymeradwyo argymhellion yr is-bwyllgor ynghyd â cheisiadau ychwanegol i Gyngor Sir Ddinbych ynghylch cysylltu â'r sector preifat a'r sector gwirfoddol.*

***<u>PENDERFYNWYD YMHELLACH</u>*** *atal y Rheolau Sefydlog i alluogi Clerc y Dref i ymateb fel mater o frys.*

## 24. <u>COFNODION CYFRINACHOL</u>

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y cofnodion cyfrinachol a ganlyn, er gwybodaeth i'r aelodau ac i gymeradwyo'r argymhelion a gynhwyswyd ynddynt:

Yr Is-bwyllgor Cynnal a Chadw - 29 Tachwedd 2023 - Cofnodion rhifau 9-16 Tiroedd

***PENDERFYNWYD*** *nodi a chymeradwyo'r cofnodion.*

**25. DIWEDDU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes cyhoeddodd y Cadeirydd ddiwedd y cyfarfod.

Cadeirydd: ……………………….

Dyddiad: ……………….…………